**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 5 Mawrth 2018 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| M Durke | E W Fitzgerald | L S Gibbard |
| D W Helliwell | T J Hennegan | C A Holley |
| E J King | W G Lewis | I E Mann |

| **Aelod Cyfetholedig** | **Aelodau Cyfetholedig** | **Aelodau Cyfetholedig** |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | P M Black | J W Jones |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Chris Sivers | Cyfarwyddwr Pobl |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: S E Crouch, B Hopkins, P K Jones, G J Tanner ac W G Thomas
Aelodau Cyfetholedig: P R Hood-Williams

---

## 107 Derbyn Datganiadau o Gysylltiadau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 108 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 109 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 110 Craffu ar Droseddu ac Anhrefn - Cynnydd ar Berfformiad Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel.

Roedd y Prif Uwch-arolygydd Martin Jones (Heddlu De Cymru) a Chris Sivers (Cyfarwyddwr Pobl) yn bresennol i roi adroddiad cynnydd am Berfformiad Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel ac ateb cwestiynau.

Rhoddwyd cyflwyniad ar y cyd a ddarparodd wybodaeth am y canlynol:

- Partneriaeth statudol:
  - Gweledigaeth y bartneriaeth
  - Pwrpas y bartneriaeth
- Penawdau
- Heriau presennol ac arfaethedig
- Blaenoriaethau strategol
- Gweithgareddau a llwyddiannau allweddol o ran:
  - Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)
  - Camddefnyddio sylweddau
  - Cymunedau diogel, cydlynus a chadarn
  - Economi gyda'r hwyr a chyda'r nos
  - Monitro troseddau casineb a thyndra cymunedol
- Effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth
- Ystadegau perfformiad a throseddau
- Heriau

Datblygwyd Strategaeth Abertawe Mwy Diogel a dywedon nhw fod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth newydd wedi agor ym mis Chwefror 2018.

Blaenoriaethau'r strategaeth oedd:

- VAWDASV
- Camddefnyddio Sylweddau
- Cymunedau diogel, cydlynus a chadarn
- Economi gyda'r hwyr a chyda'r nos
- Monitro troseddau casineb a thyndra cymunedol

Tynnodd y Cyfarwyddwr Pobl sylw at y ffaith y gwnaed mwy o hyfforddiant ar y cyd mewn perthynas â VAWDASV a'i fod wedi bod yn effeithiol iawn.

Adroddodd y Prif Uwch-arolygydd fod marwolaethau a oedd yn ymwneud â chyffuriau yn destun pryder mawr gan fod Abertawe wedi'i chynnwys yn y 10 ardal â'r gyfradd uchaf o farwolaethau a oedd yn ymwneud â chyffuriau yng Nghymru a Lloegr. Roedd gwaith wedi dechrau i ddeall y problemau yn lleol a datblygu cynllun gweithredu. Gallai hyn gynnwys mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau mewn modd gwahanol a cheisio cysylltu â sefydliadau'r trydydd sector ac ysgolion i nodi'r cymunedau hynny sydd mewn mwy o berygl. Roedd y Ganolfan Asesu Unigol yn gweithio'n dda, ond gellid gwella'r amser aros i dderbyn triniaeth yn dilyn yr asesiad.

Gwnaed gwaith gwych mewn perthynas â Chymunedau Diogel, Cydlynus a Chadarn, yn enwedig mewn perthynas â Noson Tân Gwyllt, Calan Gaeaf a'r Faner Borffor sy'n enghraifft o arfer da.

Sefydlwyd Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) ym mis Chwefror 2018 ar gyfer pobl sy'n ddiamddiffyn ar y stryd. Roedd yr ymagwedd hon yn llwyddiannus

ar gyfer cam-drin domestig, ond mae'n ymagwedd newydd o ran pobl sy'n ddiamddiffyn ar y stryd.

Datblygwyd Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb yn ogystal â chalendr o ddigwyddiadau i gefnogi Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb (14 - 22 Hydref). Cafwyd ymateb gwych i'r digwyddiad diweddar yn y Cwadrant a'r ffordd yr oedd staff wedi mynd i'r afael â'r sefyllfa. Datblygodd Heddlu De Cymru, ar y cyd â'i bartneriaid, ffurflen newydd i adrodd am dyndra a'i fonitro.

Roedd nifer y troseddau cyffredinol a gofnodwyd wedi cynyddu 7.9% yn 2017 ym mhob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ledled de Cymru o'i gymharu â 2016.

Cafwyd oddeutu 40% o gynnydd mewn achosion o drais yn ogystal â chynnydd mewn troseddau rhywiol. Roedd hyn o ganlyniad i ymwybyddiaeth well.

Penodwyd dau swyddog i reoli'r economi gyda'r nos yn Uplands.

Roedd gwaith sylweddol i'w wneud o hyd mewn perthynas â seibrdroseddau a cheisio trosglwyddo'r negeseuon allweddol mewn ffordd ddigyfaddawd.

Gofynnodd aelodau amrywiaeth o gwestiynau a oedd yn canolbwyntio ar y pynciau canlynol:

- Sut ymdrinnir â sylweddau seicoweithredol/gwefrau cyfreithlon
- Posibilrwydd o wasanaethau i bobl ddiamddiffyn i sicrhau i gael ymagwedd amlasiantaeth/gyfunol at ymdrin ag iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau
- Effeithiolrwydd cyfarfodydd PACT a ffyrdd eraill o gynnwys y gymuned
- Argaeledd heddweision ac effeithiolrwydd plismona gyda llai o swyddogion ar y strydoedd
- Ffyrdd o dorri'r cylch galw a mynd i'r afael â phroblemau craidd megis pobl sy'n ddiamddiffyn, er mwyn lleihau aildroseddu.
- Blaenoriaethau mewn perthynas â menywod a phuteindra yn ogystal â phroblemau ynghylch y Stryd Fawr
- Parhad heddweision lleol ac ymrwymiad tuag at feithrin perthnasoedd deuffordd ag aelodau ward
- Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, e.e. beiciau oddi ar y ffordd
- Effaith y boblogaeth gynyddol o fyfyrwyr a chysylltiadau Abertawe Mwy Diogel â'r prifysgolion
- Cynyddu ymwybyddiaeth o achosion o dwyll a hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r we
- Ffyrdd o gyrraedd pobl ddiamddiffyn mewn perygl o gael eu paratoi i bwrpas perthynas amhriodol
- Plismona cymunedol yn ardal Uplands
- Gorchmynion amddiffyn rhag priodas dan orfod
- Anffurfio organau rhywiol merched - trefnwyd hyfforddiant mewn ysgolion, ond roedd yn rhaid ei ddarparu mewn ffordd sensitif
- Digartrefedd - ystyried gwella'r cymorth a ddarperir yn ystod y dydd a'r hyn y gellid ei wneud yn wahanol

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Uwch-arolygydd Martin Jones a Chris Sivers am y cyflwyniad addysgiadol ac roedd yn edrych ymlaen at gwrdd eto i drafod perfformiad Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.15 pm

**Cadeirydd**